



Cydlynnydd Criw Celf
Disgrifiad Swydd
Medi 2019 – Medi 2021
Ffi: £6,000

Mae Tîm Gweithredol Theatr Clwyd, y Cyfarwyddwr Artistig Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Liam Evans-Ford, yn arwain y theatr drwy gyfnod cyffrous o newid, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol.

Rydym eisiau penodi cydlynnydd prosiect llawrydd brwdfrydig a chreadigol i weithio gyda'r adran Ymgysylltu Creadigol yn Theatr Clwyd i gyflwyno prosiect Criw Celf ledled Sir y Fflint.

Cyflwynir y prosiect gan bob sir yng Ngogledd Cymru ac mae'n cael cefnogaeth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Beth yw Criw Celf?

Bydd cyfres o chwe gweithdy penwythnos yn cael eu cynnig ar gyfer y tri grŵp Criw Celf sy'n gweithio mewn safleoedd ysbrydoledig ledled y sir, fel Parc Wepre, Dyffryn Maes Glas a Theatr Clwyd. Bydd artistiaid proffesiynol hynod brofiadol yn cael eu cyflogi i gynnal gweithdai sy'n edrych ar amrywiaeth o dechnegau artistig ac i weithio gydag amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys darlunio, cerflunio, paentio a chreu printiau.

Hefyd bydd y cyfranogwyr yn treulio diwrnod yn ymweld ag orielau proffesiynol a bydd rhieni a brodyr a chwiorydd yn cael dod hefyd. Bydd arddangosfa o waith yr artistiaid ifanc yn cael ei dangos ochr yn ochr â gwaith yr artistiaid proffesiynol a gynhaliodd y gweithdai.

Bydd y cyfranogwyr yn cael eu dewis drwy broses ymgeisio. Bydd holl Benaethiaid Cynradd y Sir a'r Athrawon Celf Uwchradd yn cael cyfle i enwebu hyd at ddeg o ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog, o flwyddyn 5 i flwyddyn 9, a fyddai'n elwa o gymryd rhan yn y prosiect ac sydd â diddordeb brwd yn y celfyddydau gweledol. Bydd pob disgybl yn cyflwyno un darn o waith celf a pharagraff yn amlinellu pam fyddai'n hoffi bod yn rhan o'r Criw Celf. Bydd cydlynnydd y prosiect, a'r Cyswllt Ymgysylltu Creadigol, yn dewis pump ar hugain o artistiaid ifanc i bob grŵp i gymryd rhan yn y prosiect.

Prosiect allgyrsiol yw Criw Celf ac mae'n cael ei gynnal y tu allan i oriau ysgol. Er bod cyswllt â'r cwricwlwm cenedlaethol efallai, nid yw hon yn flaenoriaeth i'r prosiect. Bydd disgwyl i rieni ymrwymo i ddod â'u plentyn i'r gweithdai ble bynnag yn y sir fyddant yn cael eu cynnal.

Cyflogir cynorthwyyr Criw Celf i fynychu'r dosbarthiadau meistr ac i gefnogi a chynorthwyo gyda gwaith y cydlynnydd yn ystod yr ymweliadau oriel ac i helpu gyda dewis a hongian yr arddangosfa.

Manylion am y Tasgau

- Cysylltu â holl ysgolion y sir, ac ymweld ag ysgolion os yw hynny'n briodol, i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect Criw Celf
- Hybu Criw Celf Sir y Fflint ar Gyfryngau Cymdeithasol ac ar wefan y Criw Celf
- Penodi artistiaid priodol ar gyfer pob dosbarth meistr Criw Celf gan sicrhau bod pob asesiad risg a phob archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal
- Archebu lleoliadau ar gyfer dosbarthiadau meistr y Criw Celf
- Rheoli'r gyllideb
- Trefnu amserlen cynorthwyyr y Criw Celf i sicrhau bod rhywun yn bresennol ym mhob un o'r dosbarthiadau meistr
- Mynychu'r dosbarthiadau meistr yn ôl yr angen i sicrhau ansawdd
- Bod yn brif gyswllt i rieni/gofalwyr ac athrawon
- Sicrhau bod holl ddisgyblion y Criw Celf yn cael gwybodaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg yn brydlon
- Trefnu ymweliad ag oriel neu stiwdio ar gyfer pob un o grwpiau'r Criw Celf

- Trefnu arddangosfa derfynol ar y cyd o waith celf gan bob un o grwpiau'r Criw Celf gan weithio gyda Chydlynnydd y Portffolio
- Mynychu cyfarfodydd rhanbarthol Gogledd Cymru ar ran y prosiect pan bod angen
- Gwerthuso'r prosiect gan ddefnyddio pecyn adnoddau gwerthuso cenedlaethol y Criw Celf
- Mynychu cyfarfodydd diweddarau gyda'r Cyswllt Ymgysylltu Creadigol – Celfyddydau Gweledol a fydd yn rheolwr llinell ar y swydd
- Creu adroddiad terfynol ar gyfer y cyllidwyr, Cyngor Celfyddydau Cymru

Amcangyfrif o amser y flwyddyn

- 20 diwrnod cynllunio gan gynnwys mynychu cyfarfodydd
- 4 diwrnod yn cydlynu arddangosfa
- 1 diwrnod datblygu creadigol (ymweliadau oriel/stiwdio)
- Cyflogir y cydlynnydd o fis Medi 2019 ymlaen i roi digon o amser i gynllunio a recriwtio a chynhelir y gweithdai a'r ymweliadau rhwng misoedd Ionawr a Gorffennaf 2019.

Bydd ffi o £3,000 y flwyddyn ar gael i gyd ac mae hyn yn cynnwys teithio, cynhaliaeth a llety. Mae'r ffi wedi cael ei chyfrif ar sail £120 y dydd am 25 diwrnod, ac mae diwrnod o waith yn cynnwys 7 awr a 30 munud.

Manyleb y Person

- Bydd rhaid i'r Cydlynnydd ymrwymo i fod ar gael rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021
- Bydd gan y Cydlynnydd gefndir proffesiynol yn y celfyddydau a bydd ganddo brofiad o fonitro, cynllunio a gwerthuso gweithdai a phrosiectau creadigol gyda phobl ifanc
- Mae gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn angenrheidiol a'r gallu i siarad yr iaith yn ddymunol iawn
- Rhaid i unrhyw gydlynnydd a gyflogir ar gyfer y prosiect fod yn hunangyflogedig a bod â'i Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ei hun
- Bydd rhaid cael tystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon
- Mae trwydded yrru ddilys a'ch cludiant eich hun yn hanfodol

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gwenno Eleri Jones ar 01352 702471.

Sut i Ymgeisio

I wneud cais am swydd y Cydlynnydd Criw Celf, anfonwch lythyr cais yn amlinellu sut byddech yn mynd ati i weithio gyda'r briff, a CV cyfredol yn tynnu sylw at brofiad perthnasol blaenorol, gyda manylion cyswllt dau ganolwr o gyflogaeth flaenorol, berthnasol yn ogystal â thri llun o waith a gynhyrchwyd gan bobl ifanc yn eich gweithdai a tri llun o'ch gwaith eich hun.

Rhaid i'r ceisiadau gyrraedd erbyn Dydd Mawrth yr 17 o Fedi 2019

Anfonwch eich cais drwy'r post at:

Gwenno Eleri Jones
Cyswllt Ymgysylltu Creadigol
Theatr Clwyd
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1YA

Ar e-bost i:

gwenno.jones@theatrclwyd.com

Cyfweliadau

Cynhelir y cyfweliadau yn Theatr Clwyd dydd Mercher 25 o Fedi 2019

